






Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Gell Cyngor Technegol

Crynodeb o'r cyngor

6 Tachwedd 2020



Y Gell Cyngor Technegol: Crynodeb

6 Tachwedd 2020

Crynodeb o'r Prif Bwyntiau

- Mae'r Grŵp Cyngori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE) yn amcangyfrif y gallai heintiadau fod yn tyfu rhwng 1% a 4% y dydd. Rhwng 1.0 ac 1.3 yw'r amcangyfrif diweddaraf o'r rhif atgynhyrchu (Rt) ar gyfer Cymru yn ôl rhagfynegiad SAGE.
- Mae dros 100% o welyau'r Unedau Gofal Dwys, ar gyfer gofal 1:1 i gleifion y GIG (COVID-19 ac achosion nad ydynt yn ymwneud â COVID-19) bellach yn llawn. Yr union ganran yw 107%.
- Yn ôl amcangyfrifon astudiaeth heintiau COVID-19 y Swyddfa Ystadegau Gwladol, roedd gan tua 1 person ym mhob 110 o'r boblogaeth gymunedol yng Nghymru COVID-19 yn yr wythnos 25 – 31 Hydref. Mae hyn wedi cynyddu o 1 person ym mhob 120 yr wythnos diwethaf.
- Mae'r holl ddata ynghylch symudedd yn dangos gostyngiadau mawr iawn ers y cyfnod atal byr, ac yn fwy felly na'r cyfyngiadau lleol. Yn rhai achosion dychwelodd y lefelau symudedd i'r lefelau a welwyd ddiwethaf ym mis Mai. Er y dylid bod yn ofalus wrth ddechongli data hunangofnodedig, mae data arolygon yn dangos lefelau tebyg, ar y cyfan, o ddealltwriaeth o'r mesurau presennol a'r cydymffurfiaeth â hwy gan unigolion.
- Mae tystiolaeth newydd yn awgrymu bod lefelau uwch o heintiau a throsglwyddo o fewn grwpiau oedran mewn ysgolion nag a ystyriwyd yn flaenorol ac mae agor ysgolion yn gysylltiedig â chyfraddau uwch o heintiau yn y boblogaeth (mae'r mecanwaith ar gyfer hyn yn parhau'n aneglur - gan gynnwys llawer o ffactorau o bosibl). Ceir tystiolaeth gref bod parhau i fynychu lleoliad cyn-ysgol, ysgol neu goleg yn bwysig i gefnogi llesiant plant a phobl ifanc. Mae cau ysgolion yn debygol iawn o gael effaith ar iechyd meddwl unigolion yn eu harddegau, yn gymharol debygol o amharu ar ganlyniadau gwybyddol, cymdeithasol a datblygiad emosiynol myfyrwyr a gall hefyd gael effaith niweidiol ar lesiant corfforol plant.
- O ystyried y risgiau i staff mewn ysgolion a staff dysgu, mae data y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn awgrymu nad yw dysgu'n broffesiwn risg uchel, gyda chyfraddau profion positif ymhlith athrawon a staff lleoliadau cyn ysgol, ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd o oedrannau cymharol, ac aelodau o'u haelwydydd, yn debyg yn ystadegol i weithleoedd risg isel eraill. Oherwydd yr oedi anorfod rhwng dod i gysylltiad â'r feirws a dod yn achos a gadarnhawyd, ni fyddai disgwyl i effaith y cyfnod atal byr ar ddangosyddion gwyliadwriaeth gael ei gweld am o leiaf 2-3 wythnos ar ôl y cyfnod hwn.

Cyfradd twf a'r rhif atgynhyrchu


- Mae SAGE yn amcangyfrif bod y gyfradd twf ddyddiol bresennol rhwng 0.01 a 0.04 yng Nghymru, sy'n dangos y gallai heintiadau fod yn cynyddu rhwng 1% a 4% y dydd.
- Rhwng 1.0 ac 1.3 yw'r amcangyfrif diweddaraf o'r rhif atgynhyrchu (R_t) ar gyfer Cymru yn ôl rhagfynegiad SAGE. Dangosir yr amcangyfrif o R_t fel amrediad heb amcangyfrif canolog.
- Mae gwerth R_t consensws gan SAGE yn seiliedig ar fodelau cyfartaledd sy'n defnyddio achosion, derbyniadau i'r ysbyty, marwolaethau a data arolwg cyswllt. Mae oedi o 1-3 wythnos ynghlwm wrth y dangosyddion hyn. Mae oedi yn berthnasol i rai o'r data hefyd.
- Mae cyfradd twf sy'n is ond sy'n dal yn bositif, neu rif R_t uwch nag 1, yn parhau i ddangos bod yr epidemig yn tyfu fwyfwy.

Amser dyblu

- Roedd achosion wedi lefelu yn ystod y cyfnod 14 diwrnod 20/10/2020 i 02/11/2020 gan roi amser dyblu o 5371 diwrnod (95% cyfwng hyder 24 diwrnod i -24 diwrnod). Mae anawsterau parhaus o ran dehongli data profi ac felly mae amcangyfrifon o amseroedd dyblu yn parhau'n ansicr. Mae heterogenedd sylweddol ar draws ardaloedd daearyddol ac mae'n bosibl y bydd amseroedd dyblu cyflymach mewn rhai ardaloedd. [Dylid dehongli'r amcangyfrifon yn ofalus ac ystyried y cyfyngau hyder.](#)
- Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli R_t ac amcangyfrifon cyfradd twf ar gyfer y DU, oherwydd bod oedi anorfod cyn eu bod ar gael ac oherwydd bod y ffigurau hyn yn cuddio'r amrywiad yn nifer yr heintiadau a chyfraddau trosglwyddo yn rhai rhannau o'r wlad. Gall argaeledd profion hefyd fod yn gyfyngiad.

Proffil oedran


- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer yr episodau COVID-19 a gadarnhawyd fesul 100,000 o'r boblogaeth, yn ôl wythnos casglu'r sampl a grŵp oedran. Mae'r achosion wedi bod yn cynyddu ym mhob grŵp oedran, gyda chynnydd parhaus yn nifer yr achosion a welir mewn grwpiau oedran hŷn.
- Gwelwyd yr achosion mwyaf ymhlith pobl ifanc 18-25 oed, ond mae arwyddion bod nifer yr achosion yn y grŵp oedran hwn wedi gostwng o gymharu ag wythnosau blaenorol a bu gwell trefniadau profi yn gysylltiedig â digwyddiadau mewn prifysgolion.



Ffynhonnell: Dangosfwrdd Llywodraeth Cymru, data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fel ag yr oeddent ar 09/11/2020


Marwolaethau

- Yn ôl data amodol am dystysgrifau marwolaeth a ddarparwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, cofrestrwyd 65 o farwolaethau COVID-19 ymhlith trigolion Cymru a oedd yn nodi COVID-19 ar y dystysgrif marwolaeth yn ystod wythnos 42 (a ddaeth i ben ar 23 Hydref). Mae hyn yn gynydd o 18 ers yr wythnos flaenorol.
- Mae'r nifer wythnosol o farwolaethau oherwydd pob achos yng Nghymru ar y lefelau y disgwylir iddynt fod yr adeg hon o'r flwyddyn, ac ni nodwyd unrhyw gynydd sylweddol yn nifer y marwolaethau oherwydd pob achos,
- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer wythnosol y marwolaethau COVID-19 (unrhyw sôn amdano ar y dystysgrif marwolaeth) a'r cyfartaledd 5 mlynedd (2015-2019), rhwng yr wythnos yn dod i ben ar 3 Ionawr 2020 (Wythnos 1) a'r wythnos yn dod i ben ar 23 Hydref 2020 (Wythnos 43).



Diweddariad rhyngwladol


- Mae'r pandemig yn parhau i ddatblygu ar draws Ewrop gyda gwledydd 'mwy diogel' hyd yn oed, fel yr Almaen, yn dangos sefyllfa sy'n dirywio'n gyflym. Yr wythnos hon, mae'r Almaen a Denmarc wedi'u tynnu oddi ar restr Coridor Rhyngwladol y DU, sy'n golygu y bydd yn rhaid i deithwyr sy'n dychwelyd o'r gwledydd hyn hunanynysu am 14 diwrnod.



- Fel yr adroddwyd yr wythnos diwethaf, mae'n ymddangos bod gwahaniaeth yn datblygu rhwng gwledydd gorllewin Ewrop a gwledydd dwyrain Ewrop. Mae nodweddion yr 'ail don' yn llawer mwy amlwg yng ngwledydd dwyrain Ewrop nag yng ngwledydd y gorllewin. Dangosir y gwahaniaeth hwn yn y graffiau isod sy'n dangos y marwolaethau COVID-19 a gofnodwyd bob dydd.

- Er y gallai hyn newid, mae'n ymddangos nad yw'r gwledydd a brofodd don gyntaf fawr (gwledydd gorllewin Ewrop) yn profi ail donnau mor fawr o ran marwolaethau tra bod y rhai a brofodd donnau cyntaf bach neu fach iawn yn awr yn gweld cynnydd cyson (Rwmania a Bwlgaria) neu gyflym iawn (Gweriniaeth Tsiec, Slofacia, Gwlad Pwyl, Hwngari) mewn cyfraddau marwolaeth.


Gwledydd Gorllewin Ewrop – cyfraddau marwolaeth dyddiol



Gwledydd Dwyrain Ewrop – cyfraddau marwolaeth dyddiol


- Mae hyn yn awgrymu bod gwledydd dwyrain Ewrop yn fwy agored i niwed na gwledydd gorllewin Ewrop a'u bod yn debygol o brofi ail donnau mwy difrifol, o leiaf yn nifer y marwolaethau fel sy'n digwydd eisoes.
- Nid yw'r rheswm dros y gwahaniaeth hwn yn hysbys ond credir y gallai fod o ganlyniad i sawl ffactor, yn enwedig amharodrwydd y gwasanaethau iechyd, systemau gofal iechyd tlotach yn gyffredinol neu bod y boblogaeth yn fwy agored i niwed (o ran nad ydynt wedi'u paratoi cystal o ran eu hymddygiadau a mesurau rheoli neu o ran tueddiad biolegol).

- Yr hyn sy'n amlwg yw bod lledaeniad y pandemig ar sawl ffurf yn dibynnu ar amgylchiadau lleol ac mae ansicrwydd mawr yn parhau ynghylch sut y mae'r clefyd yn lledaenu ar lefel y boblogaeth ehangach.
- Mae data ynglŷn â'r darlun ar draws Ewrop, gan gynnwys cafeatau ynghylch oedi o ran data ac amrywiaeth mewn polisiau profi, ar gael [yma](#).



Glynu wrth y mesurau presennol a dealltwriaeth ohonynt


- Mae data diweddaraf [IPSOS MORI](#) (newydd yr wythnos diwethaf) ar gyfer y cyfnod 23–28 Hydref yng Nghymru yn dangos canlyniadau tebyg i'r hyn a welwyd bythefnos yn ôl o ran nifer o ymddygiadau lliniaru allweddol. Roedd y newid mwyaf yn y ganran a ddywedodd mai dim ond ar gyfer teithiau hanfodol yr oeddent yn gadael eu cartrefi, sef cynnydd o 46% i 57%. Dylid nodi mai'r unigolion eu hunain sy'n cofnodi a ydynt wedi glynu wrth y mesurau ai peidio, ac y bydd dealltwriaeth unigolion o'r rheolau a'r amgylchiadau sy'n berthnasol iddynt hwy yn effeithio ar y data. Roedd yr arolwg hefyd yn ymdrin â chyflwyno'r cyfnod atal byr.
- Mae'r ffigur isod yn cynrychioli data a gasglwyd ar-lein gan IPSOS MORI fel rhan o arolwg a gynhaliwyd mewn sawl gwlad ar lwyfan Global Advisor. Mae pob un o'r camau wedi cynnwys oddeutu 600 o ymatebwyr yng Nghymru. Mae'r sampl yn fras yn cynrychioli'r boblogaeth oedolion 16-74 oed. Mae'r data'n cael eu pwysoli i adlewyrchu proffil oedran a rhyw poblogaeth Cymru rhwng 16 a 74 oed. Mae gan bob sampl ffin cyfeiliornad. Ar gyfer sampl o tua 500, mae hyn yn +/-4.8 pwynt canran.





- Mae canlyniadau diweddaraf yr [Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd ynghylch Iechyd a Llesiant yn ystod y Mesurau Coronafeirws](#) ar gyfer y cyfnod 19-25 Hydref yn dangos bod 58% o bobl yn dweud eu bod yn deall y cyfyngiadau yn eu hardal leol yn 'dda iawn'. Mae hyn wedi cynyddu o 48% yn yr arolwg blaenorol (5-11 Hydref). Dywedodd 32% arall eu bod yn deall y cyfyngiadau yn 'eithaf da'. Mae'r canlyniadau hefyd yn dangos bod 47% o bobl wedi dweud eu bod yn dilyn y cyfyngiadau coronafeirws yn 'gyfan gwbl' a bod 42% arall wedi dweud eu bod yn cydymffurfio â'r mwyafrif. Mae hyn yn debyg iawn i'r arolwg blaenorol a [chanlyniadau astudiaeth gymdeithasol COVID](#).
- Mae'r astudiaeth gymdeithasol COVID (data hyd at 26 Hydref) yn dangos bod cydymffurfiaeth lwyr a chydymffurfiaeth y mwyafrif yn y DU yn sefydlog. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi nad yw 'Cydymffurfiaeth y mwyafrif â'r mesurau i leihau lledaeniad y feirws (yn dilyn y rheolau'n fras ond gyda rhai addasiadau) yn wahanol yn ôl addysg nac incwm, ond bod pobl â chymwysterau addysgol uwch ac incwm aelwyd uwch yn gwneud mwy o addasiadau i'r rheolau (cydymffurfiaeth "y mwyafrif"). Mae gan y grwpiau hyn hefyd hyder is yn y llywodraeth i ymdrin â'r pandemig ac maent yn poeni mwy am allu'r gwasanaeth iechyd i ymdopi (ar gyfer addysg yn unig) a'r effaith ar eu swyddi. Fodd bynnag, maent yn ymdopi'n well yn seicolegol, gyda gwell iechyd meddwl.'

Symudedd

- Mae'r holl ddata symudedd yn dangos gostyngiadau mawr iawn ers i'r cyfnod atal byr ddechrau – gan ostwng i'r lefelau a welwyd ddiwethaf ym mis Mai yn ystod wythnos gyntaf y cyfnod atal byr mewn rhai achosion. Dengys data ar gyfer ail wythnos y cyfnod atal byr gynnydd mewn symudedd o'i gymharu â'r wythnos gyntaf (a oedd yn cyd-daro â'r gwyliau hanner tymor). Roedd y cyfyngiadau lleol wedi lleihau symudedd, ond mae'r cyfnod atal byr wedi cael llawer mwy o effaith. Mae symudedd yn y DU yn dangos darlun cymysg, gyda rhai enghreifftiau o gynnydd (ee Facebook, Google) a gostyngiadau (ee Apple ac O2)
- Mae [symudedd defnyddwyr Facebook](#) yng Nghymru yn dangos bod y symudiad 31% yn is na'r llinell sylfaen ar gyfer yr wythnos hyd at 5 Tachwedd. Mae hyn i fyny o 33% yr wythnos flaenorol - ond mae wedi gostwng o 12% yr wythnos cyn y cyfnod atal byr (23 Hydref). Canran y defnyddwyr a oedd yn aros yn eu hunfan (yn agos i'w cartref) oedd 34%, i lawr o 37% yr wythnos flaenorol. Yn yr wythnos cyn y cyfnod atal byr roedd yn 25%. Y llinell sylfaen yw'r gwerth canolrifol ar gyfer yr un diwrnod o'r wythnos, yn ystod y cyfnod 4 wythnos rhwng 2 Chwefror a 29 Chwefror 2020.
- Mae [data Apple](#) ar gyfer yr wythnos hyd at 5 Tachwedd yn dangos bod ceisiadau am gyfarwyddiadau gyrru yng Nghymru wedi gostwng yn sylweddol o gymharu â'r wythnos cyn y cyfnod atal byr, sef 68% o'r llinell sylfaen (i lawr o 88%). Maent yn debyg i'r wythnos flaenorol. Mae ceisiadau am gyfarwyddiadau cerdded a cheisiadau am gyfarwyddiadau trafndiaeth gyhoeddus hefyd yn dangos yr un patrwm. Y llinell sylfaen yw 13 Ionawr 2020.
- Mae [data symudedd Google](#) hyd at wythnos 3 Tachwedd yn dangos cynnydd mewn lleoliadau preswyl (h.y. pobl yn treulio mwy o amser gartref) o gymharu â'r wythnos cyn y cyfnod atal byr, sydd 16% yn uwch na'r llinell sylfaen i fyny o 9%. Mae pob categori arall yn dangos gostyngiadau mawr o gymharu â'r wythnos cyn y cyfnod atal byr – yn enwedig manwerthu a hamdden– 59% yn is na'r llinell sylfaen (20% cyn y cyfnod atal byr). Roedd symudedd y gweithle 41% yn is na'r llinell sylfaen – i lawr o 22% cyn y cyfnod atal byr.
- Mae'r ffigur isod yn dangos y newid o ran symudedd yng Nghymru gan ddefnyddio data symudedd Google. Mae'r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd yr awdurdodau lleol hynny sydd â data. Y llinell sylfaen yw'r gwerth canolrifol, ar gyfer y diwrnod cyfatebol o'r wythnos, yn ystod y cyfnod 5 wythnos o 3 Ionawr i 6 Chwefror 2020. Nid yw'r data ar gyfer sawl categori ar gael ar gyfer 17 Awst – 10 Medi oherwydd nad yw'r data'n bodloni trothwyon ansawdd.



- Dengys data ffonau symudol dienw ac agoredig gan O2 hyd 30 Hydref ostyngiadau mawr mewn teithiau o'i gymharu â'r wythnos flaenorol (cyn y cyfnod atal byr). Gostyngodd teithiau a gychwynnodd yng Nghymru 26 pwynt canran i dros 50% yn is na'r llinell sylfaen. Gostyngodd teithiau yn y DU 3 phwynt canran o gymharu â'r wythnos flaenorol. Yn ystod dyddiau cyntaf y cyfyngiadau lleol, gostyngodd teithiau 12 pwynt canran ar gyfartaledd, ond ar ôl 28 diwrnod roedd (ar gyfartaledd) wedi dychwelyd yn agos at lefelau cyn y cyfyngiadau lleol. Y llinell sylfaen ar gyfer data O2 yw'r un diwrnod o'r wythnos yn wythnos gyntaf mis Mawrth.
- Mae'r cyfnod atal byr yn dangos llawer mwy o effaith ar symudedd na'r cyfyngiadau lleol. Mae data Google hefyd yn dangos bod y cyfnod atal byr wedi cael llawer mwy o effaith ar symudedd. Mae data Google yn dangos bod y cyfyngiadau lleol wedi arwain at ostyngiadau mewn symudedd yn y categorïau archfarchnadoedd/fferyllfeydd a manwerthu/hamdden. Fodd bynnag, fel gyda'r data teithiau, mae'r rhain yn dangos cynnydd cyson, gyda lefelau'n agos at lefelau cyn y cyfyngiadau ar ôl 28 diwrnod.
- I'r gwrthwyneb, nid yw'r amser a dreulir yn y categori preswyl (amser a dreulir gartref) yn dangos gostyngiad yn ystod y cyfyngiadau lleol. Gall hyn fod oherwydd bod pobl yn teithio'n lleol yn unig, gan allu treulio mwy o amser gartref.



Ymchwil

- Ar hyn o bryd mae 6632 o gleifion o Gymru wedi'u recriwtio i astudiaethau iechyd cyhoeddus brys COVID-19, sy'n gynydd o 460 yn y 7 diwrnod diwethaf.

Crynodeb gwyliadwriaeth ac epidemiolegol wythnosol COVID-19 gan lechyd Cyhoeddus Cymru

Ar 4 Tachwedd 2020

- Roedd cyfran y galwadau i GIG 111 a Galw lechyd Cymru yn ymwneud â symptomau COVID-19 posibl yn parhau'n sefydlog o gymharu â'r wythnos flaenorol.
- Arhosodd ymgynghoriadau meddygon teulu ar gyfer Heintiau Anadlol Aciwt (ARI) yn sefydlog yn wythnos 44 ond cynyddodd ymgynghoriadau ar gyfer amheuaeth o COVID-19.
- Ar hyn o bryd, mae galwadau ambiwlans sydd o bosibl yn gysylltiedig â COVID-19 yn sefydlog.
- Cynyddodd nifer yr episodau COVID-19 a gadarnhawyd gan labordai yn genedlaethol o gymharu â'r wythnos flaenorol ac roedd cyfradd y profion positif dros 19%.
- Yn ystod wythnos 44, cynyddodd nifer yr achosion ar draws pob grŵp oedran; roedd nifer yr achosion ar eu huchaf ymhlith y rhai 18-25 oed.
- Mae nifer yr achosion a gadarnhawyd a nifer y profion positif yn parhau i godi mewn llawer o ardaloedd byrddau iechyd yng Nghymru.
- Mae achosion a gadarnhawyd sydd wedi'u derbyn i'r ysbyty ac achosion a gadarnhawyd sy'n gleifion mewnol yn yr ysbyty wedi cynyddu yn ystod yr wythnosau diwethaf ym mhob ardal bwrdd iechyd, ac ar ei uchaf ar hyn o bryd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.
- Mae data gwyliadwriaeth diweddar yn awgrymu bod heintiadau COVID-19 yng Nghymru wedi'u gwasgaru'n eang yn ddaearyddol, a bod y rhan fwyaf o ardaloedd awdurdodau lleol yn gweld tueddiadau cynyddol mewn achosion a gadarnhawyd a chanran y profion positif ar gyfer SARS-CoV2.
- Adroddir am niferoedd cynyddol o ddigwyddiadau, yn bennaf mewn cartrefi gofal preswyl, ysgolion ac ymhlith myfyrwyr prifysgol.
- Yn dilyn cynnydd mewn achosion COVID-19 ar draws holl ranbarthau Cymru, cyflwynwyd 'cyfnod atal byr' ledled Cymru gyda chyfyngiad ar deithio nad yw'n hanfodol y tu allan i'r cartref rhwng dydd Gwener 23 Hydref a dydd Llun 9 Tachwedd.


- Mae marwolaethau pob achos ar lefelau a ddisgwylir yn dymhorol, er bod rhai codiadau wedi'u nodi ar gyfer yr wythnosau diwethaf mewn oedolion hŷn. Gwelwyd cynnydd yn y marwolaethau mewn achosion a gadarnhawyd yn yr ysbyty.

Defnydd o welyau mewn ysbytai

- Mae'r Ffigur isod yn dangos y defnydd o welyau mewn ysbytai oherwydd achosion COVID-19 a gadarnhawyd, yn ystod ton gyntaf ac ail don y pandemig (cyfartaledd treigl 7 diwrnod, fel ag yr oedd ar 9 Tachwedd). Mae'r cyfanswm o ran defnydd gwelyau ysbytai ar gyfer cleifion COVID-19 a gadarnhawyd wedi bod yn codi ac mae wedi mynd y tu hwnt i'r 'dangosydd sbarduno' o 500 claf y cytunwyd arno.



- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y cleifion mewn unedau gofal dwys oherwydd achosion o COVID-19 a gadarnhawyd yn ystod ton gyntaf ac ail don y pandemig (cyfartaledd treigl 7 diwrnod, ar 9 Tachwedd). Nid yw'r defnydd o welyau mewn unedau gofal dwys wedi taro trothwy'r 'dangosydd sbarduno' eto, ond mae'n dangos tuedd ar i fyny. Mae cyfanswm y defnydd o welyau gofal critigol (ar gyfer cleifion COVID a chleifion eraill) ychydig yn uwch na'r dangosydd sbarduno y cytunwyd arno, ond yn cynyddu rhywfaint.




- Mae'r tabl isod yn rhoi manylion y defnydd gwelyau mewn unedau gofal dwys ym myrddau iechyd Cymru. Mae nifer y cleifion COVID-19 mewn unedau gofal dwys wedi cynyddu ers yr wythnos diwethaf.
- Mae'r golofn gyntaf yn y tabl yn dangos yr holl ddefnydd o welyau mewn unedau gofal dwys (cleifion COVID-19 a chleifion eraill) pan ystyrir capasiti ychwanegol posibl.
- Mae'r ffigurau ynghylch defnydd gwelyau yn seiliedig ar gapasiti'r unedau gofal dwys y cawsom wybod amdano gan y byrddau iechyd lleol (cyfanswm o 257 o welyau ar y dyddiad adrodd). Fodd bynnag, unwaith yr eir y tu hwnt i tua 150 o welyau yn cael eu defnyddio mewn unedau gofal dwys, mae'n golygu na ellir eu staffio yn unol â'r gymhareb nysio 1:1 sy'n ofynnol ar gyfer Lefel 3, a bydd gofal cleifion yn cael ei effeithio. Hefyd, nid yw hyn yn ystyried amrywiadau rhanbarthol; mae rhai unedau gofal dwys yn agos at eu capasiti ac nid yw cludo cleifion COVID-19 sy'n ddifrifol wael mewn ambiwlans yn ddymunol oni bai bod hynny'n gwbl angenrheidiol.
- Mae'r tabl isod bellach yn cynnwys yr holl ddefnydd o welyau mewn unedau gofal dwys fel canran o nifer y gwelyau y mae modd eu staffio ar gymhareb 1:1 (yn seiliedig ar y ffaith fod 152 ar gael ledled Cymru).
- Diweddarwyd y data ysbytai ar 09/11/2020.

Bwrdd Iechyd	Defnydd gwelyau unedau gofal dwys lefel 3 %	Defnydd gwelyau unedau gofal dwys lefel 3 (% o'r gwelyau cymhareb 1:1 sy'n cael eu defnyddio)	Cleifion yr amheuir bod COVID-19 arnynt	Cleifion sydd wedi profi'n bositif am COVID-19
Cymru	63%	107%	7	54


Aneurin Bevan (ABUHB)	54%	83%	3	8
Betsi Cadwaladr (BCUHB)	83%	135%	1	9
Cwm Taf Morgannwg (CTMUHB)	72%	124%	2	19
Caerdydd a'r Fro (CVUHB)	45%	121%	1	8
Hywel Dda (HDUHB)	59%	86%	0	1
Bae Abertawe (SBUHB)	86%	89%	0	9

- Mae'r Ffigur isod yn dangos cyfanswm nifer y bobl sydd wedi cael prawf positif ar gyfer COVID-19 ac sydd mewn unedau gofal dwys mewn ysbytai ar draws y gwahanol fyrddau iechyd yng Nghymru.




- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y bobl a dderbyniwyd i'r ysbyty yr amheuir bod COVID-19 arnynt neu y cadarnhawyd hynny. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, tra bod y llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny.

Daily COV+/SUS Hospital Admissions




- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y bobl a ryddhawyd o'r ysbyty yr amheuir neu y cadarnhawyd eu bod wedi cael COVID-19. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, tra bod y llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny.

Daily COV+/SUS Hospital Discharges



- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y bobl a dderbyniwyd i'r unedau gofal dwys yr amheuir bod COVID-19 arnynt neu y cadarnhawyd hynny. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, tra bod y llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny.



Ffon fesur tebygolrwydd Pennaeth y Proffesiwn Asesu Gwybodaeth (PHIA)

- Os yw hynny'n briodol, bydd y Gell Cyngor Technegol yn mynegi tebygolrwydd neu hyder yn y cyngor a ddarperir gan ddefnyddio ffon fesur tebygolrwydd PHIA i sicrhau cysondeb ar draws gwahanol elfennau'r cyngor a roddir.

